Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyngor Celfyddydau Cymru

# Aelodau Pwyllgor Annibynnol: Pecyn Gwybodaeth

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


Croeso gan Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru ..............................3

Cyngor Celfyddydau Cymru ..............................4

Ein cenhadaeth ..............................5

Gwerthoedd ..............................5

Ein hegwyddorion ..............................6

Ein trefniadau llywodraethu ..............................7

Bod yn gymwys: gweithgarwch gwleidyddol ac allanol ..............................8

Swyddi gwag presennol ..............................9

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl – swyddi gwag i Aelodau Annibynnol ..............................10

Y Pwyllgor Cyfalaf – swyddi gwag i Aelodau Annibynnol ..............................12

Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb – swyddi gwag i Aelodau Annibynnol ..............................14


## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Croeso gan Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

## Croeso!

## Diolch am eich diddordeb mewn bod yn aelod annibynnol ar bwyllgor yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.

Yma rydym yn rhoi disgrifiad o'r gwaith a blas o beth byddwch yn ei wneud.

Cafodd yr elusen annibynnol, Cyngor Celfyddydau Cymru, ei sefydlu gan Siarter Frenhinol ym 1994.

Mae'r arian rydym yn ei ddosbarthu yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'n harian yn mynd i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n cynnal rhaglenni gwaith ledled Cymru a thramor drwy ein cangen Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i gydweithio, prosiectau, rhwydweithiau a chyfathrebu.

Weithiau rydym yn rhedeg ein prosiectau ein hunain, yn enwedig i archwilio meysydd newydd o waith celfyddydol neu i berswadio sefydliadau eraill i gymryd diddordeb yn y celfyddydau.

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae'n holl bwysig bod popeth rydym yn ei wneud yn agored a hygyrch i bawb a bod ein strwythur yn dryloyw.

Bydd gwaith y dyfodol yn cynnwys llywio cymhlethdodau'r sefyllfa bresennol. Rydym yn cydnabod y problemau ariannol presennol a'r effaith ar y sector. Rydym yn parhau'n ymroddedig i'n cenhadaeth o hyrwyddo celfyddydau a threftadaeth ddiwylliannol Cymru. Rydym yn cydnabod grym trawsnewidiol y celfyddydau wrth gyfoethogi bywyd pobl, ysgogi'r economi a chreu cymunedau cydlynol. Rydym yn benderfynol y bydd y buddion yma'n cyrraedd pob cornel o'r wlad.

Fel aelod annibynnol o'r pwyllgor, byddwch yn rhan o'n genhadaeth i hyrwyddo celfyddydau Cymru.

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech drefnu sgwrs am y gwaith, e-bostiwch: llywodraethu@celf.cymru



Maggie Russell

Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cyngor Celfyddydau Cymru

30 Mawrth 1994 oedd dyddiad sefydlu'r Cyngor gan Siarter Frenhinol. Ei nod yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd pobl ledled y wlad a hyrwyddo ein celf yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn Ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Felly, rydym yn gweithio mewn sefyllfa benodol iawn.

Mae ein Siarter Frenhinol yn nodi ein hamcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer yn y celfyddydau
- cynyddu mynediad y cyhoedd at y celfyddydau
- gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg

Rydym hefyd yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill yma ac â Chynghorau Celfyddydau eraill Prydain i gyflawni'n hamcanion. Mae copi o'n Siarter Frenhinol ar ein gwefan.

Rhaid inni weithio mewn fframwaith sy'n gosod y telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu rhoi ar ein harian cymorth grant a sut rydym yn gallu defnyddio'r arian.

# Ein cenhadaeth

Nod Cyngor Celfyddydau Cymru yw creu sefyllfa lle bydd gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer yn y celfyddydau'n ffynnu a lle bydd pawb yng Nghymru yn gallu ymgysylltu â'r celfyddydau. Rydym am weld Cymru o uchelgais a thegwch, lle rydym yn creu celfyddydau cyffrous sy'n rhan hanfodol o'n hiechyd a'n lles sy'n berthnasol i bob cymuned a lle mae cyfleoedd i leisiau Cymru ein hysbrydoli a chael eu hysbrydoli gan y byd o'n cwmpas.

# Gwerthoedd

Mae gennym 3 gwerth craidd:


**Uchelgais**: sicrhau bod y celfyddydau rydym yn eu hariannu yn cyfoethogi ac adlewyrchu anghenion a dyheadau'r Gymru gyfoes gan esgor ar bethau gwych ar bob lefel, yn lleol a byd-eang.

**Parch**: trin pawb ag urddas a gwerth, ni waeth beth fo'u cefndir, statws, oedran neu gredoau (cleientiaid, rhanddeiliaid, gweithwyr, y sector a'r cyhoedd) gan gydnabod eu cyfraniadau unigryw at ein celfyddydau a'n diwylliant, yn lleol ac yn fyd-eang.

**Cyfrifoldeb**: gweithio'n foesegol a thryloyw, bod yn atebol am ein penderfyniadau a'u canlyniadau, gwerthuso a dysgu o'r hyn rydym yn ei wneud i greu canlyniadau da a meithrin diwylliant o ymddiried a gwell cyfleoedd i bawb.

# Ein hegwyddorion

Mae ein Strategaeth yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor am y 10 mlynedd nesaf. Mae'n datblygu gwerth diwylliannol Cymru yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. Y chwe egwyddor o'r Adolygiad Buddsoddi sydd hefyd yn Amcanion Llesiant sy'n ei llywio: creadigrwydd; cydraddoldeb ac ymgysylltu; y Gymraeg; cyfiawnder hinsawdd; datblygu talent; trawsnewid. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r sail i'r egwyddorion sydd hefyd yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Er ein bod yn disgrifio pob un ar wahân, mae'r 6 egwyddor yn gweu drwy ein holl waith a'r gweithgarwch rydym yn ei ariannu.




Gan ddefnyddio'r 6 egwyddor, byddwn yn dathlu, datblygu a chefnogi dyfodol celfyddydau Cymru gan feithrin cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd wrth wraidd ein gwaith. Byddant yn ein tywys ac yn fodd inni adrodd stori am y gwahaniaeth y mae'r celfyddydau'n ei wneud.

Mae'r egwyddorion yn sail i'n Strategaeth a'i chynlluniau blynyddol ategol.

Mae rhagor amdanom a'n gwaith at y dyfodol yn ein Strategaeth a'n Cynllun Blynyddol.

# Ein trefniadau llywodraethu

Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n ein llywodraethu. Enw'r bwrdd yw'r Cyngor sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at 17 aelod (un ohonynt yn Is-Gadeirydd). Mae rhagor o fanylion am ein haelodau presennol ar ein gwefan.

Mae swydd Cadeirydd y Cyngor yn un â thâl a Llywodraeth Cymru sy'n pennu faint bob blwyddyn. Mae pob aelod arall yn cynnig yn wirfoddol eu hamser a'u harbenigedd ond rydym yn eu had-dalu am dreuliau ar fusnes y Cyngor.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am lywio strategaeth a rheoli ein sefydliad. Mae'n gyfrifol am sicrhau, drwy'r Prif Weithredwr, ein bod yn gweithio'n ôl fframwaith polisi Llywodraeth Cymru a bodloni ein cyfrifoldebau eraill. Fel y corff penderfynu terfynol i'r sefydliad, mae aelodau o'r Cyngor yn gwneud y penderfyniadau allweddol am bolisi corfforaethol, llunio ein Strategaeth a'n Cynlluniau Blynyddol ac unrhyw newidiadau mawr i delerau ac amodau'r staff.

I gefnogi ei waith, mae'r Cyngor wedi penodi 4 phwyllgor i gynnig cyngor arbenigol:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl
- Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb
- Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl
- Y Pwyllgor Cyfalaf

Mae pob un o'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau o'r Cyngor (un ohonynt yn gadeirydd y pwyllgor) ac unigolion annibynnol. Mae gan bob pwyllgor ei gylch gorchwyl penodol. Rydym yn penodi drwy broses ddewis agored aelodau annibynnol o'r pwyllgor oherwydd eu sgiliau a'u profiad arbenigol.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor a phob pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu briodol. Rydym hefyd yn eu hannog i barhau â'u datblygiad yn ystod eu cyfnod gyda ni.

# Bod yn gymwys: gweithgarwch gwleidyddol ac allanol

Byddwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth wrthdaro buddiannau wrth ystyried penodi pobl. Byddwn yn trafod gydag ymgeiswyr ar gam priodol unrhyw bosibiliadau o wrthdaro buddiannau.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Cyflogwr cynhwysol ydym ac rydym am adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn annog a chroesawu ceisiadau gan bobl amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig ac o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg a byddwn yn gohebu â chi yn eich dewis iaith. Ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau Saesneg. Ein nod yw cymryd camau i sicrhau ein bod yn dewis pob ymgeisydd ar sail eu haddasrwydd yn unig. Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat arall, fel nodyn llais neu fideo Arwyddeg, cysylltwch â ni yn gyntaf.

### Hyderus am Anabledd

Cyflogwr Hyderus am Anabledd ydym ac rydym wedi ymrwymo i gyfweld â phob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r gofynion hanfodol yn yr adran 'Am bwy rydym yn chwilio'.

## Gwaith aelod annibynnol

Am dymor cychwynnol o dair blynedd y bydd eich penodiad. Yn amodol ar adolygiad ar ddiwedd pob tymor, mae modd estyn y tymor hyd at gael dau arall o 3 blynedd yr un.

Mae cyfarfodydd pwyllgor yn digwydd yn oriau swyddfa arferol ac yn parhau am ryw hanner diwrnod. Bydd disgwyl ichi hefyd neilltuo amser i ddarllen papurau'r cyfarfod a'r wybodaeth gefndir. Weithiau y bydd angen rhagor o ymrwymiad amser.

Nid ydym yn eich talu am eich gwaith ond rydym yn talu costau teithio a chynhaliaeth resymol yn ôl cyfraddau CThEF/Llywodraeth Cymru. I gychwyn bydd eich tymor yn benodol am dair blynedd. Lle bo'n briodol, byddwn yn rhoi hyfforddiant ichi. Byddwn hefyd yn cynnig cyfleoedd ichi weld a phrofi'r gwaith rydym yn ei ddatblygu a'i ariannu am ein bod yn credu ei bod yn bwysig ichi ddeall y celfyddydau.

Rhaid ichi ymrwymo i saith egwyddor Nolan mewn bywyd cyhoeddus a bod yn barod i gydymffurfio â'n Cod Arferion Gorau (mae copi ar ein gwefan).

Rydym yn gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg ac mae rhuglder yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y gwaith.

# Swyddi gwag presennol

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl – swyddi gwag i Aelodau Annibynnol

Rydym yn chwilio am 3 aelod annibynnol i ymuno â'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl. Rhaid i o leiaf un fod â phrofiad ariannol proffesiynol.

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn. Er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol, cynhelir cyfarfodydd ar-lein fel arfer.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl

Nid oes ganddo rymoedd gweithredol ond mae'n chwarae rhan bwysig yng ngwaith y Cyngor drwy herio, cynghori a chynnig sicrwydd i'r Cyngor a'r rheolwyr fod ein gwaith wedi'i reoleiddio, yn briodol a'n bod yn cadw at yr arferion gorau.

Mae'n gyfrifol am gefnogi'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu (ein Prif Weithredwr) drwy adolygu sicrwydd dibynadwy a chynhwysfawr o'n llywodraethu, ein rheoli perygl, ein hamgylchedd rheoli ac uniondeb ein datganiadau ariannol a'n hadroddiad blynyddol gan hyrwyddo'r safon uchaf o briodoldeb wrth ddefnyddio arian cyhoeddus ac annog atebolrwydd priodol am ddefnyddio'r arian. Mae gan y Pwyllgor hefyd gyfrifoldeb am fonitro gwaith archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor i'w weld ar ein gwefan.

## Am bwy rydym yn chwilio

Rydym yn chwilio am dri aelod annibynnol i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl. Rhaid i o leiaf un fod â phrofiad ariannol proffesiynol.

Hoffem yn enwedig gael ymgeiswyr sy'n wybodus ac â hanes llwyddiannus mewn uwch swydd ariannol, archwilio neu lywodraethu.

Bydd o leiaf un aelod newydd yn meddu ar gymhwyster CCAB cydnabyddedig. Dylai pob ymgeisydd fod â phrofiad perthnasol mewn cyd-destun sector cyhoeddus a/neu elusennol a dealltwriaeth o'r amgylchedd rydym yn gweithio ynddo gan gynnwys gwybod am anghenion cyfrifyddu a llywodraethu.

Hoffem glywed gan ymgeiswyr sydd â phrofiad o sefydliadau sy'n dosbarthu arian gan gynnwys dosbarthwyr grantiau a chan ymgeiswyr sydd â dealltwriaeth dda o'r problemau sy'n wynebu sefydliadau cyhoeddus neu drydydd sector.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio ein fframwaith llywodraethu ac mae'n cefnogi'r gwaith o fonitro ein buddsoddiad yn ein sefydliadau sy'n cael arian amlfwyddyn.

## Sut i ymgeisio

Ymgeisiwch drwy CV a llythyr eglurhaol byr (1,500 gair ar y mwyaf) sy'n trafod gofynion y gwaith. Llenwch hefyd ffurflen monitro cydraddoldeb. Anfonwch eich cais at: adnoddaudynol@celf.cymru

## Dyddiad cau ymgeisio: 4pm ddydd Llun 12 Mai

Dyddiad cyfweld i'w gadarnhau.

# Y Pwyllgor Cyfalaf – swyddi gwag i Aelodau Annibynnol

Rydym yn chwilio am hyd at ddau aelod annibynnol newydd i ymuno â'n Pwyllgor Cyfalaf.

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod hyd at bum gwaith y flwyddyn ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid i aelodau fynd i gyfarfodydd ychwanegol os bydd angen. Fel arfer mae'r cyfarfodydd yn digwydd ddydd Mercher yn ystod oriau swyddfa ac mewn gwahanol leoliadau celfyddydol ledled Cymru sydd wedi cael arian cyfalaf gennym. Weithiau mae'n bosibl y bydd angen aros dros nos ar draul y Cyngor. Ond fel arfer bydd modd ichi ymuno â'r cyfarfod ar-lein os oes angen. Bydd disgwyl ichi hefyd neilltuo amser i ddarllen papurau'r cyfarfod a'r wybodaeth gefndir. Weithiau y bydd angen rhagor o ymrwymiad amser.

## Y Pwyllgor Cyfalaf

Mae'n chwarae rhan bwysig yn ein gwaith drwy roi cyngor a sicrwydd i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb ar bob agwedd ar ei raglen gyfalaf gan gynnwys cynghori'r Cyngor wrth ddatblygu polisi am flaenoriaethau a chynlluniau ariannu cyfalaf.

Mae'n gyfrifol am gefnogi'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu (ein Prif Weithredwr) i gyflwyno ein Rhaglen Gyfalaf drwy argymell grantiau cyfalaf i'r Cyngor, gwneud penderfyniadau ar geisiadau am grant yn ôl ei awdurdod dirprwyedig a monitro prosiectau cyfredol a rhoi cyngor amdanynt i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb. Mae hefyd yn gyfrifol am fonitro rhai prosiectau allweddol.

Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor Cyfalaf i'w weld ar ein gwefan.

## Am bwy rydyn ni'n chwilio

Rydym yn chwilio am hyd at ddau aelod annibynnol newydd i ymuno â'r Pwyllgor Cyfalaf.

Hoffem yn enwedig glywed gan ymgeiswyr sydd â gwybodaeth am weithio yn sector y celfyddydau sydd â phrofiad naill ai o reoli lleoliadau a/neu'r celfyddydau gweledol. Byddai hanes llwyddiannus o ran adnewyddu a datblygu adeiladau cyhoeddus (yn enwedig ym maes y celfyddydau a diwylliannol), gwybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r arferion gorau am hygyrchedd hefyd o fudd. Bydd gan ymgeiswyr hefyd wybodaeth a phrofiad o weithio yn y sectorau cyhoeddus a/neu elusennol ac ar bwyllgor.

Hoffem hefyd glywed gan ymgeiswyr sy'n deall sefydliadau cyhoeddus neu drydydd sector ac, yn ddelfrydol, sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol mewn sector penodol sydd o fudd i gyhoedd Cymru.

O fudd bydd cefndir yn y gyfraith o ran cynllunio ac adeiladu a/neu wybodaeth o beirianneg sifil, pensaernïaeth neu ddylunio neu gefndir ynddynt.

Hefyd o fudd byddai gwybodaeth ymarferol a phrofiad uniongyrchol o ddelio â'r problemau sy'n ein hwynebu ac ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o ran sefydliadau cyhoeddus.

Dyma gyfleoedd cynhwysol i ymuno â Phwyllgor Cyfalaf. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys pobl anabl a phobl LHDTC+.

Rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn barod i fynd i gyfarfodydd a chymryd rhan a chefnogi ein hamcanion a'n gwerthoedd.

Hoffem glywed hefyd oddi wrth bobl sydd â phrofiad o uwch reoli, yn ddelfrydol mewn sector sydd o fudd i gyhoedd Cymru.

Bydd proses ddewis 2 gam ar gyfer y swyddi. Ar ôl hidlo eich ffurflenni cais, byddwn yn gwahodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad yn ein Swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd rhagor o wybodaeth am y cam yma'n nes at yr amser.

## Sut i ymgeisio

Ymgeisiwch drwy CV a llythyr eglurhaol byr (1,500 gair ar y mwyaf) sy'n trafod gofynion y gwaith. Llenwch hefyd ffurflen monitro cydraddoldeb. Anfonwch eich cais at: adnoddaudynol@celf.cymru

## Dyddiad cau ymgeisio: 4pm ddydd Llun 12 Mai

Dyddiad cyfweld i'w gadarnhau.

# Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb – swyddi gwag i Aelodau Annibynnol

Rydym yn chwilio am hyd at 5 aelod annibynnol i ymuno â Phwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb.

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn. Er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol, mae cyfarfodydd yn digwydd ar-lein fel arfer.

## Y Pwyllgor

Pwrpas y pwyllgor yw adolygu, monitro a chyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i'r Cyngor allu weithredu agenda flaengar wrth gyflawni ein blaenoriaethau strategol a sicrhau bod ein gwaith yn gyson â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, Deddf Cydraddoldeb 2010 a 6 egwyddor y Cyngor.

Mae hefyd yn edrych ar gynigion a rhaglenni gwaith newydd gan gynnwys rhaglenni grantiau a datblygu gweithgarwch presennol yng nghyd-destun yr uchod a 6 egwyddor y Cyngor gan ddarparu cyngor a gwneud argymhellion lle bo hynny'n briodol cyn eu proses gymeradwyo berthnasol. Bydd yn cynnwys cael adroddiadau rheolaidd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf.

Bydd y pwyllgor yn helpu i ymgorffori lleisiau pobl ifanc yn ein strwythurau yn y dyfodol.

Bydd yn cyfrannu at fonitro ein cydymffurfiaeth â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol gan gynnwys monitro gweithredu cynlluniau perthnasol a chynhyrchu adroddiadau blynyddol yn unol â deddfwriaeth.

Bydd yr aelodau yn cynghori am ddatblygu, gweithredu a monitro polisi a phrosiectau datblygu penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, diwylliant a chydraddoldeb.

Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor i'w weld ar ein gwefan.

## Am bwy rydym yn chwilio

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys pobl anabl a phobl LHDTC+. Rydym hefyd yn chwilio am o leiaf un siaradwr Cymraeg rhugl.

Hoffem glywed yn enwedig gan ymgeiswyr sydd â gwybodaeth am weithio yn sector y celfyddydau sydd â phrofiad penodol yn un neu ragor o'r meysydd canlynol:

- cerddoriaeth gan gynnwys cerddoriaeth draddodiadol a chlasurol
- meithrin a datblygu talent
- pobl ifanc
- cyfiawnder hinsawdd

Yn ddelfrydol bydd gan ymgeiswyr wybodaeth a phrofiad o weithio yn y sectorau cyhoeddus a/neu elusennol ac o fod ar bwyllgor.

## Sut i ymgeisio

Ymgeisiwch drwy CV a llythyr eglurhaol byr (1,500 gair ar y mwyaf) sy'n trafod gofynion y gwaith. Llenwch hefyd ffurflen monitro cydraddoldeb. Anfonwch eich cais at: adnoddaudynol@celf.cymru

## Dyddiad cau ymgeisio: 4pm ddydd Llun 12 Mai

Dyddiad cyfweld i'w gadarnhau.